

Darren Millar AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

19^{eg} Hydref 2015

Annwyl Gadeirydd,

Ymateb Chwaraeon Cymru i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb yn llawnach i'r materion a godwyd yn ystod ein sesiwn tystiolaeth diweddar. Rydym yn fodlon ymateb ymhellach os oes unrhyw faterion ychwanegol y bydd arnoch angen esboniad yn eu cylch.

Am Chwaraeon Cymru

Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hybu chwaraeon a hamdden gorfforol. Y sefydliad yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â chwaraeon, rydym yn gyflenwr swyddogol ar ymchwil gymhwysol ac rydym yn gyfrifol hefyd am ddsbarthu cyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru.

Wrth fuddsoddi mewn amrywiaeth eang o bartneriaid ar lefel genedlaethol a lleol, a gweithio gyda hwy, ein nod yw cynyddu amledd y cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden gorfforol, a hefyd gwella perfformiad elitaidd. Rydym yn edrych yn eang ar chwaraeon, o chwaraeon traddodiadol fel nofio a hoci, i swmba a dawns.

Rôl Chwaraeon Cymru mewn perthynas ag Awdurdodau Lleol

Gan fod nifer o gwestiynau aelodau'r pwyllgor yn ymwneud â materion sy'n rhan o gylch gorchwyl yr Awdurdodau Lleol, roeddem yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol esbonio ein perthynas. Mae Chwaraeon Cymru yn buddsoddi ym mhob Awdurdod Lleol i ddarparu chwaraeon yn y gymuned a'r cyfrwng ar gyfer hyn yw drwy eu Cynllun Chwaraeon Lleol. Mae'r Awdurdodau Lleol eu hunain yn gyfrifol am fuddsoddi'n uniongyrchol mewn cyfleusterau lleol a'u rheoli, a phennu'r tariff i'r cyhoedd ddefnyddio'r cyfleusterau hynny.

Rydym yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd cyfleusterau hygrych o ansawdd uchel i gyrraedd ein nodau. Mae'r pwysau ar gyllidebau lleol wedi golygu bod nifer o'r cyfleusterau hyn dan fygythiad, a cheir effaith hefyd ar ffioedd mewn perthynas â defnydd. Rydym yn bryderus y bydd y rhain yn cael effaith tymor hwy ar allu cymunedau i gymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

I'r diben hwn, rydym wedi bod yn rhagweithiol ac rydym yn gweithredu fel y brif asiantaeth i ddatblygu gweledigaeth tymor hir ar gyfer cyfleusterau chwaraeon yng Nghymru. Bydd y weledigaeth hon yn datgan pam mae cyfleusterau chwaraeon mor bwysig i weithgarwch corfforol ac i iechyd y genedl. Pwrpas y ddogfen hon yw datgan yr heriau sydd o'n blaen a hefyd datgan y

blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, gan ddarparu arweiniad a fframwaith sy'n sail i benderfyniadau yn y dyfodol. Pwrpas y fframwaith cyfleusterau yn y dyfodol yw darparu rhesymeg glir ar gyfer seilwaith hamdden adeiledig sy'n addas i bwrpas ac yn 'briodol' - gan adlewyrchu anghenion cymunedol y dyfodol - er mwyn bodloni gofynion gwahanol gwsmeriaid.

Rôl Chwaraeon Cymru mewn perthynas ag Addysg

Nid ydym yn buddsoddi'n uniongyrchol mewn cyfleusterau ar diroedd ysgolion oni bai fod mantais ehangach i'r gymuned y tu allan i oriau ysgol, ond rydym yn buddsoddi yn y Consortia Addysg ac yn yr Awdurdodau Lleol i ddarparu Chwarae i Ddysgu, Sgiliau'r Ddraig a swyddogion 5/60 i ddatblygu'r ddarpariaeth chwaraeon mewn ysgolion. Hefyd, mae'r Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion, a reolir gan Chwaraeon Cymru, yn ymyriad targed sy'n gweithio gyda 66 o ysgolion Her Cymru ledled Cymru. Mae'r ysgolion sydd wedi'u dewis ar gyfer y rhaglen hon yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae'r ymyriadau gyda'r ysgolion hyn wedi canolbwyntio ar ddefnyddio addysg gorfforol i ailennyn diddordeb y rhai sydd wedi ymddieithrio.

Mae'r rhaglen yn dangos sut gall dull o weithredu sydd â'i ffocws ar y plentyn newid agweddu a galluoedd ac mae'n gweithio gyda disgyblion a rhieni. Dilynodd y buddsoddiad yn y dull newydd hwn o weithredu yr argymhelliad yn yr adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Tasg ar gyfer Chwaraeon Ysgol a Gweithgarwch Corfforol, i godi proffil Llythrennedd Corfforol a'i wneud yn ganlyniad addysgol allweddol i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Daw buddsoddiad y rhaglen hon i ben ym mis Mawrth 2016.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae Fframwaith Llythrennedd Corfforol wedi cael ei ddatblygu, gan adeiladu ar fwy na phum mlynedd o waith ymchwil a rhaglenni peilot. Ei nod yw galluogi athrawon i gyflawni a chofnodi cynnydd datblygiad llythrennedd corfforol pob plentyn yng Nghymru. Mae hwn wedi cael ei ddatblygu hefyd fel mae'r cwricwlwm newydd yn dod i'r amlwg, ar ôl adolygiad yr Athro Donaldson, ac mae ganddo rôl ganolog i'w chwarae mewn datblygu disgyblion 'iach a hyderus'. Rydym yn credu y gellir defnyddio'r fframwaith i gefnogi'r "ysgolion arloesol" i weithredu a threialu'r cwricwlwm newydd, a galluogi gwella sgiliau ymarferwyr yn y tymor hir i ddarparu cefnogaeth ysgol i ysgol wrth roi'r Fframwaith ar waith.

Cyflawni a Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Ar 15^{fed} Hydref, lansiwyd canlyniadau Arolwg 2015 ar Chwaraeon Ysgol gennym. Mae hwn yn arolwg ar gyfranogiad chwaraeon disgyblion ac ar y ddarpariaeth Addysg Gorfforol (AG) a chwaraeon mewn ysgolion. Fe'i cynhaliwyd yn ystod tymor yr haf 2015 rhwng 14^{eg} Ebrill a 21^{ain} Gorffennaf. Mae'r disgyblion yn llenwi holiadur am eu cyfranogiad a'u hagwedd tuag at Addysg Gorfforol (AG) a chwaraeon. Gofynnir hefyd i aelod o staff o bob ysgol lenwi holiadur ar y ddarpariaeth AG a chwaraeon yn eu hysgol. Fel rheol, caiff yr holiadur hwn ei lenwi gan y cydlynnydd AG yn yr ysgolion cynradd neu'r Pennaeth AG yn yr ysgolion uwchradd.

Am yr eildro'n olynol, mae arolwg 2015 wedi dangos cynnydd cyffredinol yn lefelau cymryd rhan disgyblion Cymru ym Mlynnyddoedd 3-11. Mae'r gwahaniaethau sy'n bodoli ers peth amser mewn

lefelau cymryd rhan i'w gweld o hyd, gyda merched a disgyblion hŷn yn cymryd rhan yn llai aml mewn AG a chwaraeon. Dyma'r prif ganfyddiadau:

- 48% o ddisgyblion Blynyddoedd 3-11 *wedi gwirioni ar chwaraeon* ac yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu mewn clwb cymunedol deirgwaith neu fwy yr wythnos. Yn 2013, roedd y ffigur yn 40% ac yn 2011 roedd yn 27%.
- Mae cyfrannau tebyg o ddisgyblion cynradd ac uwchradd *wedi gwirioni ar chwaraeon* – 49% o ddisgyblion cynradd ym Mlynyddoedd 3-6 a 48% o ddisgyblion uwchradd ym Mlynyddoedd 7-11.
- Mae gwahaniaeth o hyd yn lefelau cymryd rhan y rhywiau - 52% o fechgyn a 44% o ferched *wedi gwirioni ar chwaraeon*.
- Mae'r lefelau cymryd rhan yn amrywio hefyd yn ôl oedran, ethnigrwydd, anabledd a lefel gymharol cyni'r disgyblion. Yn 2015, dangosodd yr arolwg, wrth gymharu â Chymru'n gyffredinol, ganrannau uwch wedi'u cofnodi ar gyfer y canlynol:
 - Disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 (52%)
 - Disgyblion tras gymysg a du / du Prydeinig (52%)
 - Disgyblion o'r ysgolion lleiaf difreintiedig¹ (54%)
 - Disgyblion mewn ysgolion uwchradd a oedd yn siarad Cymraeg (55%)
- 65% o ddisgyblion yn mwynhau gwersi AG 'yn fawr' a 53% o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon mewn clybiau ar ôl ysgol neu yn ystod amser cinio (chwaraeon allgyrsiol) 'yn fawr'.
- 62% o ddisgyblion yn meddwl bod gwersi AG a chwaraeon ysgol yn eu helpu 'yn fawr' i fyw bywyd iach.

Mae data'r arolwg hwn yn galluogi Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid i fonitro'n strategol a chofnodi tueddiadau mewn cymryd rhan mewn chwaraeon - gan gynnwys cyfranogiad yn y gymuned ac yn yr ysgol a chofnodi'r ddarpariaeth AG a chwaraeon ysgol ac agwedd yr athrawon a'r disgyblion at AG a chwaraeon. Mae hyn yn darparu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer dylanwadu ar bolisiau ac arferion chwaraeon.

Cydraddoldeb

Ers peth amser, mae Chwaraeon Cymru wedi cydnabod amrywiaeth ar lefel Bwrdd fel elfen allweddol o lywodraethu da a chred fod rhaid i ni ddangos esiampl i'n sector. Gan roi dyletswyddau cyfreithiol i'r naill ochr, mae gennym ddyletswydd foisol fel arweinwyr yn y byd chwaraeon i annog amrywiaeth ym mhob ffordd bosib. Ni fydd amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus yn digwydd heb weithredu cadarnhaol gan nifer o bobl sydd ag ymrwymiad cadarn i newid. Mae Chwaraeon Cymru wedi bod yn rhagweithiol yn y maes hwn, nid i gyrraedd unrhyw darged, ond am ein bod yn cydnabod bod gennym ddyletswydd i adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu cynrychioli. Mae 57%

¹ Defnyddir canran y disgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim (PYADd) fel mesur procsi o statws cymdeithasol ac economaidd. Mae gan yr ysgolion yn Chwartel Prydau Ysgol Am Ddim 1 (PYADd 1) lefel isel o ddisgyblion sy'n gymwys am PYADd – ac fe'u hystyrir fel y rhai lleiaf difreintiedig. Mae gan ysgolion yn PYADd4 lefel uchel o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a dyma'r rhai mwyaf difreintiedig.

o'n bwrdd presennol yn ferched a 15% yn DLIE, felly mae cynnydd wedi'i wneud. Ond mae llawer mwy i'w wneud ledled y sector.

Yn ychwanegol at hyn, yn 2014 lanswyd y rhaglen Galw Am Weithredu gennym, a sicrhodd bod £3 miliwn o fuddsoddiad y loteri ar gael i sefydliadau er mwyn rhoi hwb i gyfranogiad cymunedau DLIE, merched a genethod, pobl ag anableddau a'r rhai sy'n byw mewn tloidi. O ganlyniad i'r rhaglen hon, rydym wedi buddsoddi am dair blynedd mewn amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys y Girl Guides, Cartrefi Rhondda Cynon Taf, StreetGames (yn benodol yn eu rhaglen Us Girls, sy'n targedu merched mewn cymunedau difreintiedig), Pêl Droed Stryd Cymru ac Amser Newid Cymru. Mae'r buddsoddiad hwn yn cydnabod bod rhaid i ni weithio gyda phartneriaid y tu hwnt i'r sector chwaraeon er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal cymryd rhan yn y grwpiau hyn.

Yr Iaith Gymraeg

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae gennym rwymedigaeth statudol i'r Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo'n llawn i'r egwyddor o gydraddoldeb. Drwy gyfrwng hyn, rydym wedi datblygu perthynas gadarnhaol a rhagweithiol gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac, fel y trafodwyd yn y Pwyllgor, rydym wedi trefnu dwy gynhadledd ar gyfer y cyrff rheoli chwaraeon cenedlaethol er mwyn hybu pwysigrwydd y Gymraeg mewn chwaraeon. Rhwng y ddau ddigwyddiad, gwelwyd cynnydd pendant, gyda chyrrff rheoli'n cyflwyno ymchwil roeddent wedi'i gynnal yn ogystal â rhannu gwybodaeth am sut orau i ddarparu addysg i hyfforddwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

Aethom ati i ymateb i Ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg yn ddiweddar ac, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i'r Gymraeg, mae ein harwyddion, ein gwefan a'n dogfennau cyhoeddus i gyd yn ddwyieithog. Mae tua 14% o'n staff wedi dynodi'n flaenorol eu bod yn siaradwyr Cymraeg ond rydym wrthi'n ailgasglu'r data hyn. Mae'r Gymraeg yn faen prawf hefyd fel rhan o'n hasesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

Mae ein proses rheoli grantiau ar-lein newydd yn gwbl ddwyieithog a hefyd mae gennym aelod Cymraeg ei iaith yn ein tîm Grantiau fel bod posib cynnal pob cyfarfod / sgwrs ffôn yn y Gymraeg.

O ran ein buddsoddiad yn y Gymraeg, mae gan Chwaraeon Cymru berthynas ragorol â'r Urdd, gan fuddsoddi £250,000 y llynedd a £310,000 eleni er mwyn datblygu cyfleoedd ledled Cymru i bobl ifanc gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Buddsoddir yn y rhaglen gymunedol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar blant cynradd. Ymhlith y meysydd targed mae datblygu clybiau cymunedol, cyfleoedd i deuluoedd, cyfleoedd cystadlu priodol a datblygu'r gweithlu. Dyma weledigaeth yr Urdd: "Defnyddio grym y Gymraeg i weithio gyda phlant a phobl ifanc 3-25 oed a'u cael i gymryd rhan mewn chwaraeon o wythnos i wythnos am oes."

Hefyd mae gennym raglen ddatblygu genedlaethol a gefnogir gan rwydwaith o hyfforddwyr a gwirfoddolwyr hynod fedrus, i alluogi i ni gyrraedd targedau a sicrhau canlyniadau. Mae ffigurau 2014/15 yn dangos bod 5205 o unigolion wedi cymryd rhan mewn clybiau wythnosol 1 neu 2 o weithiau yng Nghyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2; sefydlwyd 68 o glybiau cymunedol newydd; roedd 2550 o unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau teuluol; roedd 68% yn cymryd rhan yn y rhaglen chwaraeon cymunedol; derbyniodd 1500 o hyfforddwyr hyfforddiant (750

o ferched) a cheir 440 o hyfforddwy'r gweithredol. Ers 2011, rydym wedi buddsoddi mwy na £4.5 miliwn mewn grantiau ar gyfer chwaraeon a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hefyd roedd Chwaraeon Cymru yn bartner allweddol yng Ngemau Cymru, sef digwyddiad chwaraeon dwyieithog a lansiwyd yn 2011 fel rhan o brosiect Gwaddol Llundain 2012 ledled Cymru. Fe'i sefydlwyd fel partneriaeth rhwng Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru, y Cyrff Rheoli Cenedlaethol a Chwaraeon Cymru, gan gomisiynu Urdd Gobaith Cymru fel y partner cyflawni. I ddechrau, nod y digwyddiad oedd gweithio gyda'r Cyrff Rheoli Cenedlaethol a darparu digwyddiad aml-chwaraeon blynyddol ar gyfer cyfranogiad torfol. Cyflwynir Gemau Cymru yn gyfan gwbl ddwyieithog. Mae'n gyfle i athletwyr ifanc talentog gystadlu mewn digwyddiad aml-chwaraeon uchel ei broffil gan brofi amgylchedd pentref athletwyr. Yn 2015, ymrwymodd Chwaraeon Cymru £60,000 i gefnogi costau craidd cynnal Gemau Cymru.

Rydym hefyd yn rhagweithiol gyda'n cyrff rheoli, gan gynnwys datganiad clir ar y ffaith bod disgwyl i ystyriaeth briodol gael ei rhoi i gyflawni canlyniadau yn y ddwy iaith. Gwnaed cynnydd gan ein cyrff rheoli, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Bêl Droed Cymru'n cynnal ymchwil gyda'i hyfforddwy'r a'i gwirfoddolwyr i sut gallant gynnwys y Gymraeg yn eu cyrsiau hyfforddi. Er nad ydym yn gwneud y Gymraeg yn amod ar grantiau, rydym yn datgan yn y llythyr dyfarnu ddisgwyliadau clir bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i gyflawni yn y ddwy iaith.

Mae Cyrff Rheoli Cenedlaethol Cymru wedi ymrwmo i ddatblygu'r Gymraeg drwy gytundeb gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn seiliedig ar y meysydd canlynol:

- Enwi Swyddog Arweiniol y Gymraeg i gynrychioli eich Camp (gallai'r person hwn fod yn aelod o staff, aelod Bwrdd neu wirfoddolwr). Byddai'r person hwn yn cyfrannu at Grŵp Tasg/ Fforwm y Gymraeg ac yn arwain datblygiad yr iaith yn eich Camp.
- Cytuno y dylai perfformiad Tîm Cymru yng Ngemau Cymanwlad Glasgow 2014 fod yn llwyfan ac yn sbringfwrdd i godi proffil a chynyddu amlygrwydd y Gymraeg mewn Chwaraeon.
- Adnabod Pencampwyr Elitaidd y Gamp sy'n siarad Cymraeg, i fod yn rhagweithiol ar y cyfryngau ac mewn bywyd cyhoeddus - y ffocws cyntaf i fod ar y Gemau Cymanwlad yn Glasgow.
- Dosbarthiadau / Gweithdai'r Gymraeg i greu bwrlwm ac ymrwymiad newydd i'r iaith.
- Adnabod Staff / Hyfforddwy'r / Gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg - eu hannog i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael drwy wisgo bathodynnew / crysau-T sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, gan annog mwy o gyfranogwyr i gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ymrwymiad gan wahanol Chwaraeon i gymryd rhan a bod yn amlwg mewn Gwyliau Cymraeg fel Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, Tafwyl a digwyddiadau'r Fenter leol.

Yn ôl ein tystiolaeth, mae siaradwyr Cymraeg 11% yn fwy tebygol o fod 'wedi gwirioni ar chwaraeon'; bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn wirfoddolwyr mewn chwaraeon; mwy na 5% yn fwy tebygol o fod yn aelodau o glybiau chwaraeon; a mwy na 10% yn fwy tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn chwaraeon yn ddiweddar.

Strategaeth Fuddsoddi

Mae gan Chwaraeon Cymru gyfres o egwyddorion buddsoddi sy'n arwain ein dull o weithredu. Mae'r rhain yn cyd-fynd yn glir â'n dau ddyhead o fod "wedi gwirioni ar chwaraeon" a "chreu cenedl o

bencampwyr”, a hefyd gofynion Llywodraeth Cymru drwy gyfrwng ein llythyr gorchwyl blynyddol. Rydym yn seilio ein penderfyniadau ar y potensial sydd gan bartneriaid i fodloni ein blaenoriaethau strategol allweddol ac mae gennym ganlyniadau cytunedig clir ar gyfer ein buddsoddiad gyda phob partner.

Rydym wrthi'n symud at system grantiau ar-lein newydd a fydd yn gwella'r data y gallwn eu casglu a'u defnyddio i seilio penderfyniadau buddsoddi arnynt yn y dyfodol. Hefyd, bydd y system newydd yn cynnig profiad gwell i'r ymgeisydd, drwy lif gwaith awtomatig sy'n caniatáu mynediad ar unwaith at gynnydd eu cais ym mhob cam. Mae hefyd yn cynnig dull safonol o ymgeisio ar gyfer pob math o grantiau, gan sicrhau proses ymgeisio am grantiau fwy tryloyw. Hefyd mae'r system wedi cael ei phrofi ar gyfer y dyfodol er mwyn galluogi partneriaid allanol i ymgeisio ar-lein, yn ogystal â chael rhai adroddiadau neu wybodaeth benodol.

Rydym wedi cyflwyno trosolwg o'n buddsoddiad yn ein rhaglenni amrywiol yn Atodiad A.

Fformat y Cyfrifon

O gymharu â'r blynyddoedd a fu, rydym yn llunio ac yn argraffu llawer llai o gyhoeddiadau, gyda fersiynau digidol ar gael yn awr, i'w lawrlwytho o'n gwefan.

Eleni, cafodd ein Hadolygiad a'n Cyfrifon Blynyddol eu llunio fel dwy ddogfen ar wahân, i sicrhau'r hyblygrwydd gorau posib o ran eu defnydd. Byddai'r cyfrifon a'r adolygiad dwyieithog llawn yn creu dogfen gydag oddeutu 250 o dudalennau, sy'n ddogfen fawr iawn i'w rhannu. Drwy gynhyrchu dwy ddogfen, gallwn rannu a hybu'r ddogfen adolygu, neu ddogfen y cyfrifon, ar ei phen ei hun, gan ddibynnu ar y gynulleidfa.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw ein strwythur adrodd yn ôl presennol yn esbonio manylion graddfa ein buddsoddiad yn yr adroddiad blynyddol. Byddwn yn adolygu'r ffordd y mae ein hadolygiad a'n cyfrifon blynyddol yn cael eu cynhyrchu er mwyn sicrhau bod gennym un ddogfen unigol sydd ar gael yn hwylus.

Gobeithiaf fod yr ymateb hwn yn rhoi sylw i'r materion a gododd yn ystod y sesiwn tystiolaeth. Os oes gennych ragor o ymholiadau neu os hoffech esboniad ychwanegol, cofiwch gysylltu â mi.

Yn gywir



Sarah Powell
Prif Weithredwr
Chwaraeon Cymru

Atodiad A Cyllideb 2015-16

Ffynhonnell Gyllido	Maes Cyllido	2015/16	2014/15
		£	£
Llywodraeth Cymru	Campau'r Ddraig	1,155,000	1,335,000
Llywodraeth Cymru	5 x 60	4,643,000	4,703,000
Llywodraeth Cymru	Nofio Am Ddim	3,104,000	3,500,000
Loteri	Y Gist Gymunedol	2,100,000	2,100,000
Loteri	Grantiau Datblygu	3,000,000	4,750,000
Loteri	Galw Am Weithredu	1,443,000	750,000
Llywodraeth Cymru	Cymunedau Lleol	8,902,000	9,538,000
Loteri	Cymunedau Lleol	6,543,000	7,600,000
Llywodraeth Cymru	Yr Urdd	310,000	250,000
Llywodraeth Cymru	Street Games	150,000	100,000
Llywodraeth Cymru	Cefnogaeth Ddatblygu Prydain Fawr	5,010,000	5,140,000
Llywodraeth Cymru	Hyfforddiant	1,150,000	1,180,000
Llywodraeth Cymru	Defnydd Cyfleusterau Prydain Fawr	1,019,000	1,019,000
Llywodraeth Cymru	Skills Active/Arweinyddiaeth Chwaraeon	60,000	60,000
Llywodraeth Cymru	Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru – Caerdydd Costau Rhedeg	336,000	319,000
Llywodraeth Cymru	Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru – Caerdydd Adnewyddu	25,000	6,000
Llywodraeth Cymru	Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru – Caerdydd Cyfalaf	130,000	238,000
Llywodraeth Cymru	Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru – Plas Menai Costau Rhedeg	351,000	296,000
Llywodraeth Cymru	Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru – Plas Menai Adnewyddu	25,000	45,000
Llywodraeth Cymru	Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru – Plas Menai Cyfalaf	200,000	80,000
Loteri	Chwaraeon Anabledd	590,000	590,000
Loteri	Grantiau Cyfalaf	1,000,000	1,700,000
Loteri	Hyfforddiant Cenedlaethol	950,000	950,000
Loteri	Twf Loteri	350,000	-
Llywodraeth Cymru	Cymunedau Cenedlaethol	8,766,000	8,733,000
Loteri	Cymunedau Cenedlaethol	2,890,000	3,240,000
Loteri	Athletwyr Elitaidd	900,000	1,100,000
Loteri	Hyfforddiant Elitaidd	2,300,000	1,700,000
Loteri	Rhaglenni Elitaidd	1,700,000	1,600,000
Loteri	Datblygu Talent	300,000	300,000
Loteri	Perfformiad Cenedlaethol	1,200,000	1,200,000
Loteri	Cyflog, Adffioedd a Gwasanaethau Elitaidd	1,370,000	1,181,000

Loteri	Offer Cyfalaf	70,000	60,000
Loteri	Chwaraeon Elitaidd a Pherfformiad	7,840,000	7,141,000
Llywodraeth Cymru	Costau Rhedeg Corfforaethol	1,327,000	1,327,000
Llywodraeth Cymru	Costau Cyflawni Corfforaethol	919,000	733,000
Llywodraeth Cymru	Cyfathrebu ac Ymchwil Corfforaethol	1,334,000	1,558,000
Llywodraeth Cymru	Rhaglen Datblygu Chwaraeon a Staffio	2,268,000	2,251,000
Llywodraeth Cymru	Cyfalaf Corfforaethol	15,000	27,000
Loteri	Costau Rhedeg Corfforaethol	390,000	391,000
Loteri	Costau Cyflawni Corfforaethol	452,000	431,000
Loteri	Cyfathrebu ac Ymchwil Corfforaethol	349,000	349,000
Loteri	Rhaglen Datblygu Chwaraeon a Staffio	565,000	489,000
Llywodraeth Cymru	Corfforaethol a Datblygu Chwaraeon	5,863,000	5,896,000
Loteri	Corfforaethol a Datblygu Chwaraeon	1,756,000	1,660,000
Cyfanswm	Cyllideb Llywodraeth Cymru	23,531,000	24,167,000
Cyfanswm	Cyllideb y Loteri	19,029,000	19,641,000
Cyfanswm	Cyllideb Chwaraeon Cymru	42,580,000	43,808,000